# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD
## 11eg IONAWR 2016

**Presennol:** **Cynghorydd A.P. Cooper (Cadeirydd)**

**Cynghorwyr:** **A. Davies, D.C. Evans, I.J. Jackson (Is-Gadeirydd), A. James, W.J. Lemon, A.D.T. Speake, S.E. Thomas, W.G. Thomas, D.E. Williams**

**Cynghorydd P.M. Edwards – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd K.P. Thomas**
**Cynghorydd T. Theophilus – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd D.B. Davies**

**Hefyd yn bresennol:**

**Cynghorydd H.A.L. Evans –** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Wasanaethau Technegol
**Cynghorydd T.J. Jones –** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

Mrs. R. Mullen – Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Mrs. L. Quelch – Pennaeth Cynllunio
Mr. S. Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg
Mrs. R.A. Carmichael – Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad
Mr. D. King – Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd
Mr. M. Hughes - Ymgynghorydd Cynorthwyol

Yn bresennol fel sylwedydd:

Mr. K.J. Thomas – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Lleoliad:** Siambr Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00am – 12:00pm)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D.B. Davies, J.A. Davies, J.P. Jenkins a K.P. Thomas, ynghyd â'r Cynghorydd P.A. Palmer (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol.

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Nid oedd unrhyw ddatganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (DIM WEDI DOD I LAW)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cyfeiriwyd at drafodaethau yn y cyfarfod blaenorol pan wnaed cais am sesiwn ddatblygu ar ddynladdiad corfforaethol. Gofynnwyd a ellid cynnwys adroddiad ar y mater ar yr agenda nesaf a chynigiwyd y dylid cadarnhau dyddiad ar gyfer sesiwn ddatblygu neu adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf. Awgrymwyd hefyd, pe bai sesiwn ddatblygu yn cael ei threfnu, y dylai fod yn agored i bob aelod etholedig ac nid i aelodau'r Pwyllgor yn unig. Cadarnhaodd y Pwyllgor y cynigion.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor:

5.1 y dylid nodi'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar ddydd Gwener 26ain Chwefror 2016.

5.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid cadarnhau dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor neu sesiwn ddatblygu ar gyfer aelodau etholedig ar ddynladdiad corfforaethol erbyn dyddiad y cyfarfod nesaf.

## 6. UNED CADWRAETH GWLEDIG - DIWEDDARIAD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol ar waith yr Uned Fusnes Cadwraeth Cefn Gwlad yn ystod 2015. Atgoffwyd yr aelodau o wasanaethau'r Uned, gan gynnwys darparu cyngor i adrannau eraill y Cyngor yn ogystal â'r cyhoedd ar faterion yn ymwneud â thirwedd, coed, coetiroedd, cloddiau, bioamrywiaeth a thir comin. Nodwyd hefyd y prif uchafbwyntiau o'r flwyddyn ddiwethaf, oedd yn cynnwys partneriaeth Coed Cymru, gweithredu'r Strategaeth Diogelwch Coed, Prosiect Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr (SAC) a Phrosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin oedd yn cynnwys lefel uchel o ymchwil o ansawdd gan Brifysgol Abertawe.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Gofynnwyd ymhle roedd swyddogion Coed Cymru yn gweithio a faint roedd yr Awdurdod Lleol yn ei gyfrannu at ariannu eu swyddi. Dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad wrth y Pwyllgor fod y swyddogion yn gweithio o Landeilo, a bod un swyddog yn llawn-amser a'r llall yn rhan-amser. Roedd y cyllid ar gyfer y swyddi yn dod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru (60% rhyngddynt) ac er na allai gadarnhau union gyfraniad yr Awdurdod, dywedodd y gellid danfon y wybodaeth honno at aelodau. Dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad wrth y Pwyllgor hefyd fod y swyddogion hyn yn cynhyrchu incwm i'r Awdurdod trwy weinyddu ffi'r grant plannu coed.

Croesawyd y ffaith y gweithredwyd y Strategaeth Diogelwch Coed a gofynnwyd sut roedd gwaith diogelwch ar goed oedd yn cael eu hystyried yn risg yn cael ei flaenoriaethu. Dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad a'r Pennaeth Cynllunio wrth y Pwyllgor y datblygwyd y strategaeth dros y flwyddyn ddiwethaf

gan nad oedd yn y gorffennol unrhyw gadwrfa ganolog yn cadw gwybodaeth o'r fath. Roedd y trefniadau newydd yn ddibynnol ar adrannau eraill yn darparu'r manylion angenrheidiol am goed ar dir yr Awdurdod Lleol ac yn dwyn coed oedd yn destun pryder i sylw'r Uned. Cysylltwyd hefyd ag ysgolion er mwyn cael gwybod ar ba safleoedd yr oedd coed y byddai angen eu harchwilio. Byddai ysgolion a chanddynt goed ar eu safleoedd yn cael eu blaenoriaethu oherwydd y perygl posib i ddisgyblion yn ymweld â pharciau gwledig, a rhoddir blaenoriaeth i'r coed hynny sydd o fewn pellter syrthio i lwybrau.

Wrth ymateb i gwestiwn am bwy oedd yn gyfrifol am gynnal ymweliadau safle i ddelio ag achosion o gloddiau uchel, dywedodd y Pennaeth Cynllunio y bu anghysondeb gydag achosion o'r fath yn y gorffennol lle y bu'r Pennaeth Gwasanaeth yn bersonol gyfrifol. Roedd prosesau newydd ar waith erbyn hyn a dirprwywyd y cyfrifoldeb i'r Rheolwr Rheoli Datblygu i weithio gyda'r Swyddog Coed.

Cyfeiriwyd at waredu cloddiau a gofynnwyd am eglurhad o ran sut roedd yr Uned yn ymateb i ddigwyddiadau, megis yr un a amlygwyd yn yr adroddiad lle y cafodd darn 1,300m ei glirio gan berchennog tir. Dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad wrth y Pwyllgor fod Rheoliadau Cloddiau 1997 yn caniatáu i'r Uned gymryd camau gorfodaeth a'i bod, yn y sefyllfa arbennig hon, wedi cyflwyno hysbysiad ail-blannu. Dywedwyd fod swyddogion yn ceisio gweithio gyda pherchnogion tir ac yn cychwyn deialog er mwyn sicrhau bod cloddiau yn cael eu hail-blannu yn hytrach na rhoi dirwyon na fyddent, oherwydd amryfusedd yn y ddeddfwriaeth, o reidrwydd yn cael eu talu. Wrth ymateb i sylw arall am glirio cloddiau ar safle ffordd osgoi newydd Gorllewin Caerfyrddin, cytunodd y Pennaeth Cynllunio i ymchwilio'r mater ymhellach.

Gofynnwyd sut roedd yr Uned yn hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg fel rhan o'i hymrwymiad i Gynllun Gwella'r Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio, er nad oedd yr Uned ei hun o reidrwydd yn cymryd camau penodol i ddiogelu'r Gymraeg, fod unedau eraill y Gwasanaeth Cynllunio yn gallu ac yn dylanwadu ar y gwaith o hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant. Mae disgwyl i Hysbysiadau Technegol ychwanegol gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fydd yn cynnig rhagor o gyngor i'r Awdurdod ar fater y Gymraeg a'i heffaith ar y broses gynllunio.

Awgrymwyd hefyd fod lles bodau dynol yr un mor bwysig os nad yn bwysicach na lles bywyd gwyllt ac nad oedd codi taliadau am ddefnyddio caeau chwarae a throsglwyddo asedau o reolaeth yr Awdurdod Lleol yn llesol i iechyd trigolion y sir. Cyfeiriwyd hefyd at gae chwarae Cymdeithas Lesiant Neuadd y Gât (ger Pen-y-groes) gan nad oedd modd torri'r gwair oherwydd presenoldeb glöyn byw brith y gors. Lleisiwyd pryder, er bod materion cadwraeth yn bwysig, ei bod yn ymddangos eu bod weithiau'n cael blaenoriaeth dros y cyfleoedd i blant chwarae. Croesawodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y sylwadau ond atgoffodd y Pwyllgor fod gwaith yr Uned yn benodol iawn a bod gan yr Awdurdod nifer o bolisïau a strategaethau eraill oedd yn ceisio hyrwyddo a gwella llesiant trigolion y sir. Croesawodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad y sylwadau hefyd ac addawodd y byddai'n fodlon cyfarfod â chynrychiolwyr y gymdeithas lesiant i sicrhau y gallai'r mater gael ei benderfynu.

Wrth ateb cwestiwn am aelodaeth Partneriaeth Cynllun Gweithredu Lleol Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin (LBAP), dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad wrth y Pwyllgor fod hwn yn drefniant sy'n dyddio o'r cyfnod o gwmpas y

flwyddyn 2000 a'i fod yn cynnwys mudiadau fel Cadwraeth Gloÿnnod Byw, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Ymddiriedolaeth Coetiroedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), y Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar (RSPB) a Chyngor Sir Caerfyrddin. Dywedwyd fod y bartneriaeth wedi gweithio'n dda ers ei sefydlu a'i bod wedi galluogi swyddogion perthnasol o sefydliadau gwahanol i gyfarfod a rhannu gwybodaeth a chydweithio ar brosiectau.

Amlygwyd pwysigrwydd gwaith yr Uned Gadwraeth, ac wrth ymateb i gais am adroddiad ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ac yn benodol felly SAC Bae Caerfyrddin, cytunodd y Cadeirydd i nodi hynny a'i gynnwys ar agenda cyfarfod yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at Orchmynion Cadwraeth Coed a lleisiwyd siom ynghylch yr amser a gymerwyd i ddelio â choeden yn ardal Llangadog, yn enwedig felly gan fod hyn yn ddibynnol ar randdeiliaid ac asiantaethau gwahanol. Croesawodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y sylwadau a dywedodd y byddai'n gwirio pa gynnydd a wnaed ar y mater hwn. Rhoddodd sicrwydd i aelodau fod yr adran yn hyfforddi swyddogion eraill ar faterion cynnal a chadw / cadwraeth coed, ac y byddai hynny'n darparu mwy o adnoddau staffio yn y dyfodol.

Wrth ymateb i gwestiwn am waith tirlunio ar gynlluniau ffyrdd newydd, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio mai gan y Gwasanaeth Cynllunio yr oedd y gair olaf ar unrhyw newidiadau a wnaed wrth weithredu cynlluniau o'r fath, ac ychwanegodd fod newidiadau'n aml yn gorfod cael eu gwneud pe deuid ar draws materion na ragwelwyd mohonynt.

Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad ar waith yr uned ac fe **BENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid derbyn yr adroddiad.

## 7. PRIFFYRDD - Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y Gwasanaeth Priffyrdd i'w ystyried ganddynt. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir, manylion am yr adolygiad hyd yn hyn a chynigion ar gyfer gwasanaethau i'r dyfodol. Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Lleisiwyd pryder ynghylch y lleihad yn amlder gwagio cafnau a gynigir yn yr adroddiad, yn enwedig felly os oedd amlderau glanhau ffyrdd yn cael eu lleihau hefyd. Croesawodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y sylwadau ond atgoffodd y Pwyllgor mai mater i'r Cyngor Sir fyddai penderfynu ar hyn fel rhan o'r cynigion ar gyfer y gyllideb a drafodir yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Awgrymwyd y dylid rhoi blaenoriaeth uwch i briffyrdd gan na fyddai trigolion, heb fynediad digonol a diogel at gyfleusterau o bob math, yn gallu teithio o gwmpas y sir a gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r Bwrdd Gweithredol yn ail-ystyried ei gynigion ar gyfer y gwasanaeth. Cydnabu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Wasanaethau Technegol y sylwadau a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai, yng ngoleuni'r setliad llai difrifol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ymladd am fuddsoddiad ychwanegol yng ngwasanaethau'r Adran.

Awgrymwyd na allai'r Awdurdod barhau mwyach i weithredu gyda thoriadau i wasanaethau mor ddifrifol â'r rhai a gynigir yn yr adroddiad a bod y Cyngor mewn

sefyllfa o argyfwng. Atgoffodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Wasanaethau Technegol y Pwyllgor fod y weinyddiaeth bresennol yn ceisio gweithio o fewn cyfyngiadau cyllideb y weinyddiaeth flaenorol, a gytunwyd gan y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2015.
Cyfeiriwyd at hyd y rhwydwaith priffyrdd y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gyfrifol amdano ac awgrymwyd y dylai faint o arian a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru adlewyrchu hynny. Lleisiwyd pryder hefyd mai ffyrdd gwledig fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf. Atgoffodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Wasanaethau Technegol a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd y Pwyllgor y byddai datblygu'r hierarchaeth rhwydwaith newydd yn llesol i ardaloedd gwledig gan y byddai'n seiliedig ar rwydwaith wedi'i flaenori yn ôl defnydd yn ogystal ag yn ôl pwysigrwydd strategol, yn groes i'r system bresennol sy'n seiliedig ar ddosbarthiad ffyrdd (e.e. A, B, C ac Annosbarthedig).

Wrth ymateb i sylw yn croesawu'r ffaith y prynwyd cerbydau sawl-rôl, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd wrth y Pwyllgor y gellid defnyddio'r cerbydau 'newid-corff' newydd trwy gydol y flwyddyn ac y byddai hynny'n gwella'r defnydd o gerbydau ac effeithlonrwydd y gwasanaeth. Byddai'r cyrff tipio yn golygu y gallai cerbydau wneud gwaith adeiladu yn ystod y dydd a byddai cyrff graeanu yn golygu y gellid gwneud gwaith graeanu gyda'r nos.

Cyfeiriwyd at lefelau staffio ac at y ffaith fod adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor wedi cyfeirio at golli dim ond deugain aelod o staff yn y gwasanaethau rheng flaen dros yr wyth mlynedd diwethaf. Atgoffodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y Pwyllgor fod rhaid gwneud arbedion ymhob maes megis peiriannau, deunyddiau, prosesau caffael ac mai'r nod oedd cadw cymaint o staff rheng flaen ag y bo modd. Fodd bynnag, collwyd staff o'r gwasanaeth dros y blynyddoedd diweddar oherwydd afiechyd, ymddeoliadau a thrwy'r cynllun diswyddo.

Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd chwistrellu gwair i'w atal rhag tyfu'n ormodol ar finffyrdd yn ddewis ar gyfer arbed arian, yn hytrach na'i dorri, nododd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, er bod chwistrellu o'r fath yn gyfreithlon a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd trefol i reoli chwyn, y byddai'n rhaid cael cerbyd o hyd i deithio i'r safle dan sylw. Felly, er y gellid ei ystyried, nid oedd yn amlwg a fyddai'n arwain at arbedion ariannol.

Yn dilyn cwestiwn am atal staff o'u gwaith yn yr adran, atgoffodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y Pwyllgor fod hyn yn ymwneud â'r Uned Gwasanaethau Gwastraff, ac er bod rhai aelodau o staff wedi dychwelyd i'w gwaith, nid oedd modd dweud rhagor gan fod ymchwiliadau yn parhau.

Mynegwyd siom am naws yr adroddiad a lleisiwyd pryder fod toriadau parhaus yn debygol o arwain at ddirywiad parhaus yng nghyflwr priffyrdd a phontydd. Gofynnwyd hefyd a fyddai'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ail-gyfeirio arian o godi llwybrau seiclo arfaethedig i waith cynnal a chadw priffyrdd. Cydnabu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Wasanaethau Technegol fod sefyllfa'r gyllideb yn anodd ond fod y cyfyngiadau hyn yn ganlyniad cyllideb y weinyddiaeth flaenorol. Ychwanegodd fod llawer o waith yn cael ei wneud i edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio a fyddai nid yn unig yn arwain at arbedion ariannol ond fyddai'n cael yr effaith leiaf bosib ar wasanaethau. Ychwanegodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd hefyd fod symiau cyfalaf mwy wedi'u clustnodi ar gyfer yr adran yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2016/17 ymlaen.

Wrth ymateb i gwestiwn am ganoli depos, cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y byddai'r depos yn cael sylw ac felly hefyd a fyddai trefniant wedi'i ganoli yn addas o ran amserau teithio / ymateb i rannau gwahanol o'r sir. Byddai angen ystyried unrhyw gynllun i resymoli depos law yn llaw â gofynion awdurdodau cyfagos ac anghenion Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru.

Lleisiwyd pryder fod aelodau profiadol o staff yn cael eu colli trwy'r cynllun diswyddo ac fe gwestiynwyd statws presennol yr ad-drefnu staffio. Cydnabu Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod cynllunio olyniaeth yn fater allweddol yr oedd swyddogion yn edrych arno, yn enwedig felly gan fod gan yr adran broffil oed hŷn. Ychwanegodd y byddai haen reolaeth uchaf yr adran yn cael sylw maes o law, a dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd wrth y Pwyllgor fod y gwaith priffyrdd oedd gynt yn gweithredu ar sail Dwyrain-Gorllewin wedi cael ei rannu erbyn hyn yn bum sector, sef: Gogledd Ddwyrain (Llandeilo i Lanymddyfri), Gogledd Orllewin (Caerfyrddin i Gastellnewydd Emlyn), De Orllewin (Caerfyrddin i Hendy-gwyn ar Daf), Dwyreiniol (Cross Hands i Ddyffryn Aman) a De Ddwyrain (Llanelli).

**PENDERFYNWYD** derbyn y diweddariad.

## 8. GRŴP GORCHWYL A GORFFEN DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD 2015/16 - DOGFEN CYNLLUNIO A CHWMPASU

Cyflwynodd y Cadeirydd y ddogfen gynllunio a chwmpasu ar gyfer yr adolygiad gorchwyl a gorffen o daliadau parcio ceir i'r Pwyllgor. Hyd yn hyn, roedd y Grŵp wedi cyfarfod deirgwaith, a threfnwyd dau gyfarfod arall ar gyfer misoedd Ionawr a Chwefror. Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Awgrymwyd y dylai'r rhestr o randdeiliaid fyddai'n rhan o'r adolygiad gynnwys siambrau masnach. Rhoddodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r Grŵp yn derbyn crynodeb o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf ar fater taliadau parcio ceir. Atgoffodd y Pwyllgor fod yr Awdurdod, wrth ystyried unrhyw gynigion ar newidiadau i daliadau parcio ceir, bob tro'n cynnal ymgynghoriad a bod yr ymarferion hynny'n ennyn ymateb gan randdeiliaid o bob math, gan gynnwys siambrau masnach a fforymau tref, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd.

Wrth ymateb i gwestiwn am yr arbrawf parcio am ddim yn Llanelli, atgoffodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Wasanaethau Technegol y Pwyllgor y gwnaed hyn er mwyn ceisio denu mwy o siopwyr i ganol y dref ar adeg o'r dydd oedd yn tueddu bod yn dawelach, gan roi pwyslais arbennig ar ddenu rhieni allai fod angen mynd i'r dref ar ôl oriau ysgol.

Gwnaed cyfeiriad arall at y fenter parcio am ddim yn Llanelli ac awgrymwyd y dylai'r Grŵp ystyried mentrau tebyg ar gyfer Caerfyrddin a threfi eraill y sir. Cydnabu'r Cadeirydd bryderon aelodau o rannau eraill o'r sir a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r Grŵp yn ystyried y sir yn ei chrynswth yn hytrach na chanolbwyntio ar fentrau ar gyfer trefi unigol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid derbyn y diweddariad.

9. **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR, COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALWYD AR Y 12FED O DACHWEDD 2015**

**PENDERFYNWYD** y dylid llofnodi'n gywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Iau 12fed Tachwedd 2015.

10. **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR, COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALWYD AR Y 11EG O RAGFYR 2015**

Dywedwyd na chofnodwyd cwestiwn am atal staff yn Adran yr Amgylchedd o'u gwaith yng nghofnodion cyfarfod mis Rhagfyr. Cydnabu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Wasanaethau Technegol ei bod wedi ymateb i ymholiad yn y cyfarfod hwn a'i bod ar y pryd wedi cadarnhau y byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am ganlyniad unrhyw gamau disgyblu ynghylch yr ataliadau.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar y newid uchod, y dylid llofnodi'n gywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Llun 11eg Rhagfyr 2015.

| | |
|---|---|
| ________________________ | ________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |